

2023

# BRWYDR BARHAUS…

## Profiadau teuluoedd â phlant a phobl ifanc niwroamrywiol y mae angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol arnynt yng Nghanol De Cymru

GAN
Heledd Fychan AS

Plaid Cymru
Party of Wales

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## **Mae hawliau plant anabl yn cynnwys:**

- Yr hawl i ymuno â gweithgareddau, ac ni ddylai eu hanabledd eu hatal rhag cymryd rhan.
- Yr hawl i ymuno a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ysgol.
- Yr hawl i gael gofal arbennig os oes ei angen arnynt.
- Yr hawl i ddewis yr hyn y maent yn ei wneud, a chael dweud eu dweud mewn dewisiadau am eu bywydau.
- Yr hawl i gael eu cynnwys yn eu cymuned leol ac i wneud y math o bethau y mae plant nad ydynt yn anabl yn eu gwneud.[1]

[1] https://disability-studies.leeds.ac.uk/wp-content/uploads/sites/40/library/morris-Disabled-children-the-Children-Act-and-human-rights.pdf Jenny Morris
(Sgwrs yn y Gynhadledd 'Young and Powerful', a drefnwyd gan Disability North: 26 Mai 1999)



*Yng ngeiriau un rhiant a ysgrifennodd ataf:*

*Mae'n un frwydr hir, flinedig, sy'n draenio egni rhywun wrth wneud dim mwy na cheisio cael y ddarpariaeth addysgol i'ch plentyn y mae ei hangen arno, ac y mae'n ei haeddu.  Mae rhai plant yn cael hynny ar ffurf darpariaeth Addysg Anghenion Arbennig arbenigol ond mae'r rhan fwyaf yn cael eu gadael i frwydro'n galed ac i ddioddef ac yn cael eu gadael, fel fi, gyda thrawma emosiynol a meddyliol a niwed o'r ysgol a ddaw yn sgil y diffyg cefnogaeth llwyr ....*

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf bu'n amlwg i mi fod cynnydd sydyn wedi bod o ran nifer yr etholwyr sydd wedi dod ataf yn gofyn am gymorth i ddadlau dros addysg addas i'w plentyn.  Daeth yr holl alwadau hyn am gymorth gan rieni neu ofalwyr y mae eu plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.  Mae eu straeon yn aml yn dorcalonnus, yn angerddol ac yn ddewr.  Roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig bod eu lleisiau'n cael eu clywed.  Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi mewn ymateb i'r ymchwiliad gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd a gynhaliwyd er mwyn darganfod a oes gan blant a phobl ifanc anabl a niwroamrywiol fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Dosbarthwyd arolwg drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Bro Morgannwg ac rydym yn ddiolchgar i'r 117 o bobl a roddodd o'u hamser i ymateb, a hefyd i'r sefydliadau a'n cynorthwyodd i gysylltu â rhieni a gofalwyr.

Rwyf wedi ceisio cadw'n driw i'r teimladau a'r wybodaeth a rannwyd â mi, mewn modd sy'n ystyriol o ddiogelu manylion personol pobl.  Am y rheswm hwn, o bryd i'w gilydd efallai y bydd dyfyniad wedi newid ychydig fel na ellir ei

briodoli i unrhyw un.  Roedd opsiwn i blant a phobl ifanc ei ateb hefyd, ond ychydig iawn o’r holiaduron hynny a ddychwelwyd.  Mae'r dystiolaeth yma yn dystiolaeth gan rieni a gofalwyr yn unig.

**Ymatebwyr**

Ymatebodd 115 o bobl yn Saesneg a 2 riant yn Gymraeg. Mae 69 y cant ohonynt yn byw yn Rhondda Cynon Taf, 19.5 y cant yn byw yng Nghaerdydd ac 11.5 y cant yn byw ym Mro Morgannwg.

Roedd gan 79 y cant o'r ymatebwyr blant a oedd yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, ac roedd gan 17 y cant blant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ychydig o dan 10 y cant yn nodi bod eu plant naill ai'n cael addysg ddewisol yn y cartref neu addysg yn y cartref.  Dywedodd grŵp bach o lai na phump o rieni bod eu plant wedi cael profiad o addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

# Bywyd Ysgol

## I. Gwersi Cwricwlwm Ffurfiol

Gwnaethom ofyn

**“I ba raddau mae eich plentyn yn gallu cael mynediad at wersi cwricwlwm ffurfiol ar hyn o bryd”**

Atebion a roddwyd:

**1: Yn gyfan gwbl (20.5 y cant) Ar adegau (43.8  y cant) Dim o gwbl (35.7 y cant)**

Cynigiodd rhieni 80 o sylwadau gwahanol am hyn, a chrynhoir y rhain isod.

**Y ffordd hir**

Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylwadau yn cyfeirio at y broses araf o sicrhau bod anghenion eu plant yn cael eu cydnabod, eu hasesu ac yn cael diagnosis.  Soniodd saith o bobl yn benodol am y rhwystredigaeth o fod mewn sefyllfaoedd lle'r oeddent yn aros i asesiadau gael eu gwneud er mwyn iddynt wedyn gael mynediad at ddarpariaeth dysgu ychwanegol

addas. Soniwyd am gyfnodau aros amrywiol, o ddwy flynedd hyd at bedair blynedd. Mae effaith emosiynol hyn yn cael effaith amlwg ar rai teuluoedd:

*"Dw i wedi fy llorio nawr wrth geisio brwydro yn erbyn y system.....Does neb yn gwrando arnoch chi.....Mae'n un frwydr hir, flinedig, sy'n draenio egni rhywun wrth wneud dim mwy na cheisio cael y ddarpariaeth addysgol i'ch plentyn y mae ei hangen arno, ac y mae'n ei haeddu".*

**O ran profiad y plentyn – 'mae'n cael ei gamddeall', 'mae'n ddrwg' ac 'mae wedi'i orlethu'.**

Roedd disgrifiadau o brofiadau plant yn amrywio o gael eu "gorlethu" (term a ddefnyddiwyd 8 o weithiau gan rieni) i fod yn "bryderus" y dywedodd 6 rhiant wrthym amdano, a phlant sy'n cael trafferth i ymdopi â'r gofynion arnynt.

Aeth rhai rhieni ymlaen i roi enghreifftiau o pan fyddai ymateb eu plentyn i ysgogiad llethol yn ei amgylchedd yn arwain at bwl o strancio, a gâi ei gosbi gan athrawon neu gynorthwywyr dosbarth, a byddai'r plentyn neu'r person ifanc wedyn yn cael ei labelu fel plentyn drwg.

**Amgylchedd yr Ysgol**

Roedd agweddau sy'n ymwneud â'r pwysau y gall amgylchedd ysgol ei roi ar blant niwroamrywiol hefyd yn amlwg yn yr ymatebion. Soniwyd yn aml iawn am sŵn, seiniau ac arogleuon ysgolion sy'n anodd i blant a phobl ifanc ymdopi â nhw. Soniodd sawl person nad oedd ardal dawel ar gael. Soniodd pedwar rhiant nad oedd y cymorth technegol ar gyfer hygyrchedd a ddylai fod ar waith o ganlyniad i drafodaeth a chytundeb gyda'r ysgol ar bontio neu yn ystod cyfarfodydd Cynllun Datblygu Unigol y plentyn, wedi'u sicrhau fel yr addawyd.

**Cefnogaeth un-i-un**:

Roedd llawer o rieni o'r farn mai rhan allweddol o'r gallu i gael mynediad at gwricwlwm ffurfiol llawn i'w plentyn oedd eu bod yn cael cefnogaeth 1 i 1. Dywedodd chwech o bobl nad oedd dim cymorth Cynorthwyydd Addysgu nac unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei gynnig i'w plentyn. Soniodd pump o bobl fod y cymorth ar sail rhan-amser neu'n afreolaidd, a dim ond amserlen ran-amser lai yr oedd 13 o blant / pobl ifanc yn gallu cael mynediad ati. Mae pedwar teulu wedi cyrraedd y pwynt o optio allan o'r system yn gyfan gwbl ac

roeddent yn addysgu gartref, ac mae dau deulu arall yn cael cymorth drwy'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

Soniodd tri rhiant am gyllid, a theimlent fod hyn wedi bod yn rhwystr i gael cymorth un i un.

**Sgiliau a hyfforddiant staff**

Roedd 17 o sylwadau a oedd yn nodi nad oedd dim darpariaeth dysgu ychwanegol wedi'i sefydlu, a bod staff naill ai'n anfedrus neu yn anwybodus am niwro-amrywiaeth. Roedd tri o bobl o'r un farn, na allai athrawon ac ysgolion "ymdopi" â'u plant, ac roedd 5 o'r farn na allai eu plant "ymdopi" â'r ysgol.

> *"Nid oedd gan yr ysgol ddim gwybodaeth am anghenion arbennig er eu bod yn gwneud eu gorau glas, ond roedd yn cyfaddef nad oedd ganddi'r offer cywir."*

**Cefnogaeth yn Gymraeg**

Dywedodd un rhiant ei fod wedi symud ei blentyn allan o ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg "*gan fod y gefnogaeth yn gyfyngedig iawn*"

## I. Teithiau ysgol

Fe wnaethom ofyn "I ba raddau mae eich plentyn yn gallu cael mynediad at deithiau ysgol ar hyn o bryd"

**Yn gyfan gwbl (29.2 y cant) Ar adegau (31 y cant) Dim o gwbl (39.8 y cant)**

Cynigiodd rhieni 71 o sylwadau gwahanol am hyn, a chrynhoir y rhain isod.

**Addasrwydd y Daith**

Dywedodd 25 o rieni nad oedd eu plentyn wedi mynd ar deithiau oherwydd nad oedd y cyrchfannau a'r cynlluniau yn addas ar gyfer anghenion eu plentyn. Roedd y rhesymau am hyn yn amrywio o gyfleusterau anaddas, dull

trafnidiaeth anaddas, y gyrchfan yn lleoliad swnllyd neu y byddai'r daith yn debygol o achosi pryder i'r plentyn neu'r person ifanc, ac felly ni wnaethant ddewis mynd ar y daith.

> *"Maen nhw wedi'u hanelu at blant niwronodweddiadol. Mae'r bysiau ar gyfer teithio yn swnllyd ac yn hunllef synhwyraidd. Nid yw'r lleoliad a'r mynediad i'r toiled yn addas ychwaith"*

**Cefnogaeth addas a diogel**

Nodwyd diffyg cefnogaeth un-i-un i blant neu bobl ifanc fel rheswm pam nad oeddent yn gallu ymuno â theithiau ysgol. I rai, roedd cael rhiant i fod yn bresennol yn ateb, ond i eraill nid oedd hyn yn ymddangos yn opsiwn.

Soniodd chwe rhiant yn benodol am y broblem hon.

> *"Dim cefnogaeth ychwanegol pan ar deithiau"*
>
> *"Nid yw fy mherthynas[1] yn mynd ar deithiau ysgol oherwydd nid yw'r ysgol yn darparu ei ofal un i un yn hwy nag ychydig oriau'r dydd".*

Roedd yn amlwg mai parodrwydd ac argaeledd rhieni i fynd gyda'u plentyn ar daith ysgol yw'r ffactor sy'n penderfynu a all plentyn gael y profiad o fynd ar y daith ysgol honno. Soniodd 14 o rieni fod disgwyl iddynt fynd ar y daith er mwyn i'w plentyn allu mynd, a chynigiwyd rhai rhesymau fel: iechyd a diogelwch y plentyn, rheoli diet ac anghenion gofal personol. Dywedodd dau deulu nad oedd eu plentyn wedi mynd ar deithiau ysgol oherwydd nad oeddent fel rhieni yn gallu mynd gyda'u plentyn ar y daith am resymau gwaith.

Soniodd rhai rhieni sut y gwnaeth hyn dynnu sylw at eu plentyn o ran cael ei drin yn wahanol i blant eraill:

> *"Fi oedd yr unig riant i fynd"*

**Gwaharddiadau a chosb**

Defnyddiwyd y gair "gwaharddedig" neu wedi'i "eithrio" bum gwaith gan rieni. Roedd arwyddion eraill hefyd gan rieni bod hon yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro, er enghraifft, yr adegau y soniodd rhieni am eu plant 'heb eu cynnwys'.

> *'Ni chafodd ein plentyn wahoddiad i'r digwyddiad Nadoligaidd ac*
>
> *ni chafodd y cyfle i fod yno gyda'i ffrindiau[1]"*

Dywedodd rhai rhieni fod eu plentyn:

> *"ddim yn mynd ar deithiau ysgol"*
>
> *"ni chaniateir iddo fynd ar deithiau / egwyliau"*
>
> *"nid yw wedi'i gynnwys mewn teithiau ysgol".*

Nododd un rhiant fod y sefyllfa wedi'i gosod fel cosb gan yr ysgol oherwydd ymddygiadau a oedd yn eu barn hwy yn nodweddion Awtistiaeth a oedd wedi'i reoli'n wael.

**Darpariaeth Ysgol Arbennig / plant sy'n cael eu haddysgu gartref**

Dywedodd dau riant fod eu plant wedi gallu mynd ar deithiau ysgol am y tro cyntaf ers i'w plentyn gael ei leoli mewn ysgol arbennig. Soniodd rhieni sy'n

Addysgu Gartref hefyd fod ganddynt y rhyddid i gynllunio teithiau yn unol ag anghenion eu plentyn.

**Cyllid**

Nodwyd diffyg modd ariannol fel rheswm mewn un achos pam nad oedd plentyn yn gallu mynd ar deithiau ysgol.

## II. Gweithgareddau allgyrsiol

Fe wnaethom ofyn "I ba raddau mae eich plentyn yn gallu cael mynediad at weithgareddau allgyrsiol ar hyn o bryd"

**Yn gyfan gwbl (14.4 y cant) Ar adegau (24.3 y cant) Dim o gwbl (61.3 y cant)**

Cynigiodd rhieni 111 o sylwadau gwahanol am hyn, a chrynhoir y rhain isod. Roedd themâu cyson.

Nodwyd lefel uchel yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac wrth ystyried y sylwadau, roedd y themâu mor glir fel y gellir eu categoreiddio yn ôl y ffaith bod dim ond rhai geiriau yn cael eu defnyddio.

Rhannwyd y profiadau a ddisgrifiwyd yn ddau gategori bras. Dywedodd grŵp mawr o rieni nad oedd clybiau a gweithgareddau prif ffrwd yn ddarpariaeth addas ar gyfer eu plant. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn niferus ac yn cynnwys:

> *"ddim yn deall ei anghenion" "staff heb eu hyfforddi" "clybiau chwaraeon yn rhy gystadleuol" "dim amser i roi cefnogaeth ychwanegol" "gormod o blant yno" "yn rhy swnllyd" "yn rhy flinedig" "ddim yn ddigon diogel" "mae fy mhlentyn yn cael ei wawdio a'i fwlio" "ni wnaed dim addasiadau"*

Nododd rhieni eraill nad oedd darpariaeth a ddylai fod, ac sydd, yn addas ar gyfer eu plant yn bodoli o gwbl bron. Roedd hyn yn cynnwys clybiau chwaraeon, clybiau brecwast a chlybiau gwyliau.

Dywedodd rhai rhieni fod eu plant wedi cael profiadau da yn cyrchu darpariaeth a oedd yn cael ei rhedeg gan wahanol elusennau, ond bod

sicrhau lle ar ddarpariaeth o'r fath yn hynod o anodd gan fod y galw am leoedd yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael.

Soniodd pum rhiant am ddiffyg cyllid ar gyfer staff cymorth un-i-un i alluogi plant i gymryd rhan.

Mae'n amlwg bod rhai clybiau a gweithgareddau hygyrch a chynhwysol da yn yr ardal ond prin yw'r rhain.  Nid yw mwyafrif y plant yn cael mynediad at weithgareddau addas a hygyrch y tu allan i'r ysgol.

*Mewn dadansoddiad o'r geiriau yn yr holl ymatebion a ddaeth i law, y gair a ymddangosodd amlaf oedd*

BYTH

## A YW PLANT A PHOBL IFANC NIWROAMRYWIOL NEU ANABL YN CAEL EU GWAHARDD O AGWEDDAU AR ADDYSG AC YN CAEL EU TRIN YN ANNHEG?

**Roedd dau gwestiwn a oedd yn sbarduno gwybodaeth am brofiadau rhieni, a safbwyntiau ynghylch a oeddent yn credu bod eu plant a'u pobl ifanc yn cael eu heithrio neu yn cael eu trin yn annheg:**

1. *Ydych chi'n teimlo bod eich plentyn wedi'i eithrio o rai agweddau ar ei addysg (neu ofal plant) oherwydd ei anabledd neu'i niwroamrywiaeth?*

**Yn gyfan gwbl (64.6 y cant) Ar adegau (21.2  y cant) Dim o gwbl (14.2 y cant)**

2. *I ba raddau oeddech chi'n credu bod eich plentyn yn cael ei drin yn annheg oherwydd ei anabledd neu'i niwroamrywiaeth?*

**Yn gyfan gwbl (54 y cant) Ar adegau (34.2  y cant) Dim o gwbl (11.7 y cant)**

Cafodd yr ymatebwyr gyfle i ymhelaethu ar eu profiadau. Dewisodd 78 o bobl ymateb i un cwestiwn a 71 o bobl ymateb i'r ail gwestiwn yma, ac roedd themâu cyson yn dod i'r amlwg. Rydym wedi ceisio crynhoi'r prif negeseuon isod.

> *"Maen nhw'n llithro drwy'r craciau, wedi'u hesgeuluso a'u hanwybyddu. Nid yw eu hawliau'n cael eu bodloni, sy'n fy mhoeni gan fod gennyf blentyn rhugl iawn y gwn y byddai'n ffynnu gyda'r cymorth cywir."*

Cyfeiriwyd at yr enghreifftiau a ganlyn fel tystiolaeth am eithrio a / neu driniaeth annheg:

- Diffyg cymorth un-i-un
- Diffyg dealltwriaeth broffesiynol o niwro-amrywiaeth
- Ffactorau amgylcheddol
- Prysurdeb y diwrnod ysgol
- Gofynion synhwyraidd disgyblion
- Diffyg technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol
- Dibyniaeth ar ddarllen ac ysgrifennu yn y cwricwlwm ac eithrio plant â dyslecsia

Roedd rhieni'n dweud yn gyson am y teimladau nad oedd eu plant yn gallu cael mynediad at:

- Clybiau brecwast
- Clybiau ar ôl ysgol
- Clybiau gwyliau ysgol
- Clybiau chwaraeon
- Teithiau ysgol

Daeth thema newydd o bwys i'r amlwg yn y sylwadau, a oedd yn dangos cryn bryder am y niwed seicolegol sy'n cael ei achosi i blant a phobl ifanc, a'r bwlio y maent yn ei ddioddef.

## Bwlio

Soniodd sawl rhiant fod eu plant wedi cael eu bwlio yn yr ysgol. Yng ngeiriau un rhiant:

> *"Ni roddir digon o sylw i integreiddio cymdeithasol o fewn grwpiau yn yr ysgol. Mae (fy mhlentyn) wedi dioddef bwlio dro ar ôl tro gan ddisgyblion niwro-nodweddiadol sy'n ei hystyried yn darged hawdd. Yn aml, mae'r atebion i broblemau a hyrwyddir gan yr ysgol yn golygu bod yn rhaid iddi hi ei hun wneud newidiadau i'w harferion a'i hymddygiad yn hytrach na'r bwlis."*

Dywedodd rhiant arall:

> *"Nid oes gan fy mhlentyn ddim ffrindiau a chafodd ei bwlio'n ofnadwy am amser hir. Nid oedd yr ysgol yn ymdrin â'r bwlio. Roedd hi'n casáu'r ysgol ac yn aml yn gwrthod mynd".*

## Niwed seicolegol

Dywedodd rhieni wrthyf fod llawer o blant a phobl ifanc niwroamrywiol yn profi niwed seicolegol oherwydd eu profiad o gael eu hallgáu, a chael pobl yn methu â'u deall.

Disgrifiwyd enghreifftiau o blant yn cael eu cosbi a'u labelu'n "blant drwg" gan

> *"Bu'n rhaid i ni wylio ein plentyn 4 mlwydd oed yn ei dagrau oherwydd sut y cafodd ei thrin. Fe wnaethon ni dreulio 10 wythnos gartref i ddatblygu ei hyder unwaith eto"*
>
> *"Mae'n cael ei esgeuluso, yn cael ei adael y tu allan am ei 'awr' o ysgol, nid oes plant eraill gydag ef ac mae wedi'i gadw gyda dau oedolyn a heb ddim gweithgareddau"*
>
> *"Nid yw fy mhlentyn yn dysgu'r un peth â phlentyn niwro-nodweddiadol ac mae'r Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) yn rhwystr i ddysgu mewn amgylchedd prif ffrwd. Oherwydd nad yw'n gallu eistedd yn llonydd a chanolbwyntio....mae XX wedi cael trafferth nes ei fod yn gorfforol sâl ers blynyddoedd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu agwedd negyddol ddifrifol tuag at yr ysgol a dysgu."*
>
> *"Mae fy mhlentyn yn awtistig ac mae ganddi gyflyrau eraill. Mae'i wedi teimlo trawma yn sgil lleoliad ysgol a fethodd hefyd"*
>
> *"Roedd yr ysgol yn achosi rhagor o bryder i fy mhlentyn. Mae'r system yn gwneud cam â chynifer o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol"*
>
> *" bydd fy mhlentyn yn cael ei ddwrdio, bydd unigolion yn gweiddi arno, bydd yn cael ei alw'n chwerthinllyd, caiff llythyrau eu hanfon adref am ei phresenoldeb oherwydd ei bod yn mynd yn gorfforol sâl ac yn cael cur pen sydd o ganlyniad i bryder am yr ysgol".*

4 rhiant.

Disgrifiodd 12 o rieni sut roedd eu plant yn cael profiadau niweidiol yn seicolegol. Nid yw'n bosibl mesur a oedd y rhain yn brofiadau tymor byr neu'n ddigwyddiadau hirfaith ac ailadroddus. Mae'r sylwadau hyn yn rhoi blas o'r hyn sy'n ymddangos yn yr ymatebion:

## 'Dim ei eisiau'

Gall cynnwys y term hwn fel thema yn yr ymatebion ymddangos yn emosiynol. Roedd darllen y sylwadau a fynegwyd yn anodd, gan fod nifer o rieni wedi disgrifio eu bod yn teimlo bod eu plant yn ddieisiau gan eraill, ar sail eu profiadau.  Nid yw'n glir a yw'r rhieni yn credu bod eu plant neu bobl ifanc hefyd yn teimlo'n ddieisiau.

*"Ni wahoddwyd xxxx i gymryd rhan yn y Cyngerdd Nadolig"*

*"Dim gwahoddiadau i deithiau.  Dim sôn am glybiau i'w mynychu.  Teimlo'n ddieisiau".*

*"Ni chaniatawyd i fy mhlentyn fynd ar deithiau preswyl na theithiau'r ysgol gan nad oes gan yr ysgol staff i'w oruchwylio"*

*"Mae ei ddiffyg presenoldeb wedi cael ei annog yn frwd gan yr ysgol"*

*"Nid yw fy mhlentyn erioed wedi cael ei gynnwys"*

*"Nid yw fy mhlentyn wedi cael unrhyw lun ysgol, gan na allai ymdopi ag adleisiau a gofod neuadd yr ysgol, ac ni wnaed unrhyw baratoadau eraill ar ei chyfer"*

## IECHYD MEDDWL A LLESIANT

Dewisodd 71 o bobl roi eu barn i ni am sut yr effeithir ar iechyd meddwl a llesiant eu plant. Atebodd 113 y cwestiwn:

**A yw'r materion hyn yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant eich plentyn?**

Atebion a roddwyd:

**1: Yn gyfan gwbl (76.1 y cant) 2: Ar adegau (15.9 y cant) 3: Dim o gwbl (8 y cant)**

Roedd ailadrodd nodedig o'r un geiriau yn yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Wrth roi'r 60 gair uchaf i mewn i declyn cwmwl geiriau datgelwyd y llun a ganlyn:




## Effaith ar iechyd meddwl rhieni

Nododd sawl rhiant fod eu hiechyd meddwl eu hunain wedi dioddef yn sylweddol o ganlyniad i geisio cefnogi eu plant a bod yn eiriolwyr drostynt. Roedd y sylwadau a rannwyd yn peri gofid i'r darllenydd, ac yn datgan yn bendant bod y mwyafrif llethol o'r rhai a atebodd o'r farn bod y profiadau o

fod yn niwroamrywiol o fewn y system addysg yng Nghymru wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl eu plentyn hefyd.

## Cyfathrebu ac Ymgynghori

Gwnaethom ofyn:

**A yw'r ysgol yn ymgynghori â'ch plentyn ynghylch ei ddewisiadau a'i opsiynau addysg?**

Yn gyfan gwbl (16.2 y cant) Ar adegau (42.3 y cant) Dim o gwbl (41.4 y cant)

Cyflwynodd 50 o bobl sylwadau.

**A yw eich plentyn yn cael gwybodaeth glir am ei opsiynau ac am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar ei gyfer?**

Yn gyfan gwbl (8 y cant) Ar adegau (32.7 y cant) Dim o gwbl (59.3 y cant)

Cyflwynodd 47 o bobl sylwadau.

**A ydych chi fel rhieni plentyn anabl neu niwroamrywiol yn cael gwybodaeth a chymorth effeithiol gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion?**

Yn gyfan gwbl (2.7 y cant) Ar adegau (23 y cant) Dim o gwbl (74.3 y cant)

Cyflwynodd 70 o bobl sylwadau.

## Heriau o ran cyfathrebu o fewn ysgolion ac yn amlasiantaethol

*"Does dim gwybodaeth a dim llwybr – rydyn ni wedi cael ein gwthio rhwng gwasanaethau"*

*"Unwaith y cafwyd datganiad, nid oedd dim byd i'w weld yn newid ac nid yw'n ymddangos bod y diagnosis dyslecsia yn treiddio o un flwyddyn i'r llall / o un athro i'r llall"*

*"Mae'r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynllun Datblygu Unigol yn faes dyrys ac nid oes llwybr cymorth clir i blant ag anghenion ychwanegol. Byddai rhagor o dryloywder ynghylch yr opsiynau a'r llwybrau i gael gafael ar ddarpariaeth arbenigol yn ddefnyddiol."*

*"Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn enbyd – maen nhw'n gwneud i chi neidio drwy gylchoedd i gael unrhyw beth ganddyn nhw.....Pam mae'n rhaid i mi gael fy nhrosglwyddo o un lle i'r llall gyda'r gwasanaethau cefnogi teuluoedd dim ond i weld gweithiwr cymdeithasol".*

Roedd safbwyntiau amrywiol ar y cwestiynau ynghylch a oedd ymgynghori ystyrlon yn digwydd neu beidio, ac roedd y darlun yn un cymysg.

Pwysleisiodd llawer o rieni eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o gyfathrebu gan ysgolion, a rhoddodd 25 o rieni enghreifftiau o ysgolion yn ymdrechu'n galed i barchu eu dymuniadau a dymuniadau eu plant.

> *“Mae ysgol fy mhlentyn yn wych am roi gwybod inni am eu penderfyniad”*
>
> *“Does dim pwysau. Mae lleisiau a hawliau ein plant yn bwysig yn ei ysgol bresennol, mae wedi bod yn anhygoel gweld y cynnydd ynddo.”*
>
> *“Mae'r ysgol yn anhygoel, ond nid yw’r cyngor cystal. Fe wnes i gais am ddatganiad bedair gwaith cyn i fy mhlentyn gael unrhyw gefnogaeth.... Erbyn hynny roedd dwy flynedd o addysg wedi’u colli”*

Soniwyd am rôl yr Awdurdod Lleol sawl gwaith, a hynny mewn cyd-destun negyddol bob amser:

Roedd y thema '**Y ffordd hir at gefnogaeth'** yn amlwg, a dewisodd un ymatebwr ddweud ei fod wedi aros o’r adeg yr oedd ei blentyn ym Mlwyddyn 1 hyd at yr adeg yr oedd ym Mlwyddyn 6 am atgyfeiriad priodol at y gwasanaethau niwroddatblygiadol.

Dwy thema glir arall a ddaeth i’r amlwg oedd:

1. Roedd cyfathrebu a chael gwybodaeth yn aml yn cael ei ysgogi gan y rhieni. Roedd llawer o rieni wedi troi at elusennau i ddod o hyd i gefnogaeth, ac roedd un teulu hyd yn oed wedi ceisio cyngor cyfreithiol. Roedd llawer o rieni wedi dod yn arbenigwyr drwy eu gwaith ymchwil eu hunain.

2. Y gair arall a oedd yn disgrifio profiadau llawer o bobl ac a gafodd le amlwg yn yr ymatebion yn yr adran hon oedd “**brwydro”,** oherwydd teimlai rhieni bod yn rhaid iddynt 'frwydro' dros hawliau a darpariaeth ddysgu eu plant.

## Yr heriau, yn ôl rhieni

Gwnaethom ofyn: **Beth ydych chi’n meddwl yw’r rhesymau sy’n atal ysgolion (neu ddarparwyr gofal plant) rhag cynnig darpariaeth addas i’ch plentyn?**

Darparodd 106 o’r rhai a ymatebodd ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Ni ddarparwyd unrhyw awgrymiadau.

Roedd consensws clir ynghylch beth oedd yr heriau, ac maent wedi’u categoreiddio fel a ganlyn:

- Ariannu: Crybwyllwyd 56 o weithiau
- Hyfforddiant / Cymhwyster / Diffyg dealltwriaeth: Crybwyllwyd 52 o weithiau
- Adnoddau a Staff Crybwyllwyd 34 o weithiau
- Addysgu / asesu sydd wedi dyddio Crybwyllwyd 4 gwaith
- Diffyg gweithio amlasiantaethol Crybwyllwyd 2 waith
- Biwrocratiaeth / Amseroedd aros hir Crybwyllwyd 5 gwaith

- Ethos, Diwylliant, yr amgylchedd   Crybwyllwyd 5 gwaith

Cynigiwyd llu o sylwadau, ac roedd llawer ohonynt yn adleisio’r problemau a soniwyd amdanynt eisoes. Rhai meysydd a amlygwyd am y tro cyntaf:

"Y galwadau ar athrawon"

"Rhagor o ddewis i rieni a disgyblion, a chynnwys disgyblion a'u rhieni wrth wneud penderfyniadau.  Mae'r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn sôn am ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chynnwys disgyblion a'u rhieni, ond nid yw hyn yn digwydd"

"Mae'n rhaid i'r angen am ddarpariaeth o ran ysgolion awyr agored / dysgu a arweinir gan blant a darpariaethau therapiwtig fod ar gael i blant na allant gael mynediad at unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol neu addysg brif ffrwd"

"AMSER"

"DEALLTWRIAETH, gofalgar, ymatebion cyfartal a theg i sefyllfaoedd, nid rhagfarn ac agweddau negyddol".

Mynediad at addysg.  Mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol.  Mae fy mhlentyn yn edrych fel pawb arall ac felly mae disgwyl iddo ymddwyn yr un fath â phawb arall.  Mae XXX yn cael ei gadw yn yr ysgol am beidio â chwblhau gwaith fel gweddill y dosbarth.  Mae cymdeithas yn greulon"

"Dulliau addysgu mwy amrywiol"

"Darpariaeth arbenigol yn Gymraeg o'r cyfnod meithrin ar gyfer plant â phroblemau ymlyniad a thrawma".

"Amserlenni, yr holl baneli, a gweithwyr proffesiynol ddim yn gwrando"

"Biwrocratiaeth! Hefyd cyswllt rhwng rhanddeiliaid, model feddygol o ddealltwriaeth wedi dyddio mewn rhai meysydd"

"Cyllid ysgol ac uned Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) drwy gyfrwng y Gymraeg".

"Newid agwedd ar gyfer plant ag alergeddau.  Alergedd yw'r cyflwr cronig mwyaf cyffredin ymhlith plant, ac eto mae'r system addysg yng Nghymru yn parhau i wneud y lleiafswm posibl i helpu plant deimlo'n gynwysedig ac yn ddiogel."

## Atebion, yn ôl rhieni

**Gwnaethom ofyn: Pe gallech newid y sefyllfa er gwell beth fyddai eich blaenoriaeth?**

Atebodd 92 o bobl y cwestiwn hwn, ac roedd rhai themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro. Rydym wedi ceisio crynhoi'r prif negeseuon isod. Mae'r rhain yn cael eu rhestru yn nhrefn faint o rieni a'u rhoddodd ar frig eu rhestr. Roedd yr ateb mwyaf poblogaidd yn drech nag unrhyw un o'r atebion eraill, ac roedd traean o'r ymatebwyr yn dweud yr un peth.

- Hyfforddiant i holl athrawon a staff ysgolion

- Lleihau rhestrau aros
- Llai o ffocws ar dargedau cwricwlwm, er mwyn caniatáu rhagor o amser ar gyfer anghenion unigol, gwneud arholiadau yn fwy cynhwysol, llai o bynciau gorfodol, a rhagor o hyblygrwydd mewn cwricwlwm amgen (e.e. pynciau awyr agored, sgiliau byw yn y gwyllt, therapi lego, therapi celf, therapi ceffylau)
- Rhagor o staff
- Yr elfen iechyd meddwl wedi'i gwmpasu yn y Cynllun Datblygu Unigol, a rhagor o gefnogaeth emosiynol a seibiant i deuluoedd.
- Clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau hygyrch
- Gwell cyflog i staff er mwyn gwella cyfraddau cadw
- Hyfforddiant ar gydraddoldeb i staff yr awdurdod lleol
- Rhagor o gefnogaeth gan Seicolegydd Addysg
- Sefydlu canolfannau diagnostig plant – ymyrraeth gynnar
- Sefydlu unedau Cymraeg ar gyfer plant Awtistig
- Ariannu elusennau y mae'r GIG yn cyfeirio rhieni atynt
- Ystafelloedd synhwyraidd mewn ysgolion prif ffrwd
- Sefydlu mudiad Pride o ran Awtistiaeth ar gyfer yr haf

- Penodi Arweinydd Alergedd i Gymru

> *“Mae’r plant hyn yn hynod ddawnus ac mae ganddyn nhw gymaint o ffyrdd hardd o edrych ar fywyd, ac mae angen annog ac edrych yn fanwl ar hyn.”*

## Casgliad

Mae geiriau a theimladau’r rhieni a’r gofalwyr a roddodd o’u hamser yn hael i rannu eu barn â ni, yn dweud y cyfan.  O ddadansoddi’r holl sylwadau ac ymatebion, y casgliad clir yw:

- Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cynnwys disgyblion niwroamrywiol a phlant anabl mewn addysg brif ffrwd yng Nghymru yn annigonol.
- Mae'r ddarpariaeth yn brin o staff, ac ni chaiff ei hariannu’n ddigonol.
- Nid oes gan y proffesiwn addysgu y cyfarpar i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion niwroamrywiol, a hynny o ran hyfforddiant nac adnoddau.
- Mae canlyniadau'r diffyg darpariaeth hwn yn gostus, o ran y pwysau ar wasanaethau meddygol a’r canlyniadau addysgol sy’n deillio o hyn.

- Mae’r costau sy’n deillio o’r pwysau a roddir ar ddisgyblion niwroamrywiol, eu teuluoedd a Gwasanaethau Cymorth eraill yn anfesuradwy.